# Cyfraith Ailgylchu yn y Gweithle – canllaw ar gyfer cartrefi gofal cofrestredig yng Nghymru

busnesoailgylchu.wrapcymru.org.uk

WRAP Cymru

Y Busnes o Ailgylchu Cymru | The Business of Recycling Wales

# Contents


Pam mae angen ichi ailgylchu?

Pam mae angen ichi ailgylchu (tudalen 2)?

Sut i ddeall eich gwastraff ac ailgylchu'n well

Atal gwastraff yn y lle cyntaf

Sut i gydymffurfio â'r gyfraith ailgylchu newydd

Sut i drefnu gwasanaeth ailgylchu newydd

Sut i drefnu gwasanaeth ailgylchu newydd (tudalen 9)

Gwastraff bwyd a hylendid

Lleoliad biniau mewnol

Lleoliad a storio biniau

Hygyrchedd

Ymgysylltu a chyfathrebu â phreswylwyr

Ymgysylltu â staff

Syniadau ar hyfforddi staff

Adnoddau a gwybodaeth ychwanegol


wrap Cymru

Y Busnes o Ailgylchu Cymru | The Business of Recycling Wales

# Pam mae angen ichi ailgylchu?

Dylid darllen y canllaw hwn, a grëwyd gan WRAP Cymru, ar y cyd â Casglu Deunyddiau Gwastraff ar Wahân ar gyfer Ailgylchu: Cod Ymarfer Cymru (llyw.cymru/ailgylchuynygweithle) ac mae'n darparu cyngor ategol ar gyfer Cartrefi Gofal Cofrestredig.

Mae'n gyfraith bellach i bob gweithle wahanu'r deunyddiau canlynol i'w hailgylchu a threfnu i'r gwastraff gael ei gasglu ar wahân i wastraff arall.

## … a beth i'w ailgylchu?

- Papur a cherdyn;
- Gwydr;
- Metel, plastig, a chartonau (a deunyddiau eraill tebyg, er enghraifft, cwpanau coffi);
- Bwyd – unrhyw safle sy'n cynhyrchu 5kg neu fwy o wastraff bwyd mewn saith diwrnod yn olynol;
- Cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff bach (sWEEE) heb eu gwerthu a
- Tecstilau heb eu gwerthu.

Mae 'eitem heb ei gwerthu' yn cyfeirio at eitem nad yw wedi cael ei gwerthu i ddefnyddiwr, neu sydd wedi cael ei werthu i ddefnyddiwr a'i dychwelyd gan y defnyddiwr. Mae'n annhebygol y bydd gan gartrefi gofal unrhyw decstilau heb eu gwerthu neu gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff bach (sWEEE) heb ei werthu i gael gwared arno.

Mae'r cyfyngiad 5kg o wastraff bwyd yn berthnasol i unrhyw gyfnod o saith diwrnod.  Os ydych yn cynhyrchu mwy na 5kg o wastraff bwyd mewn unrhyw gyfnod o saith niwrnod, yna mae'n rhaid iddo gael ei gyflwyno ar wahân i'w gasglu.  Os nad ydych yn cynhyrchu mwy na 5kg yr wythnos yna dylid monitro hyn i gyfrif am unrhyw newidiadau ar y safle, er enghraifft mwy o staff, preswylwyr neu ymwelwyr.

# Pam mae angen ichi ailgylchu?

Dim ond ar gyfer gwastraff **tebyg i wastraff o'r cartref** a gynhyrchir gan weithleoedd y mae'r gyfraith hon yn berthnasol, hynny yw, gwastraff a geir mewn cartrefi fel arfer ac a gaiff ei gasglu'n arferol o ymyl y ffordd.

Mae rhestr lawn o ddeunyddiau ailgylchadwy y dylid eu cyflwyno ar wahân i'w hailgylchu ar gael yma: Casglu Deunyddiau Gwastraff ar Wahân ar gyfer Ailgylchu: Cod Ymarfer. (llyw.cymru/ailgylchuynygweithle)

Fel cynhyrchydd gwastraff, mae'n ofynnol ichi gynhyrchu nodyn trosglwyddo gwastraff. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd eich casglwr gwastraff yn gwneud hyn i chi. Dylech ei wirio'n ofalus i sicrhau bod y disgrifiad o'r gwastraff sy'n cael ei gasglu'n gywir. Ni chaiff eich casglwr gwastraff anfon unrhyw un o'r deunyddiau wedi'u gwahanu i dirlenwi neu losgi. Gallech ystyried gofyn i'ch casglwr gwastraff am dystiolaeth reolaidd o ble mae eich gwastraff ac ailgylchu'n cael ei gludo iddo.

Er na fydd yn anghyfreithlon ichi gael uned mwydo, peiriant dad-ddyfrio, neu dechnoleg gwaredu gwastraff bwyd arall tebyg, bydd yn anghyfreithlon ichi eu defnyddio i anfon gwastraff bwyd i garthffosydd.

Mae'n rhaid i holl gartrefi gofal wahanu ailgylchu'n gywir i gael ei gasglu, p'un a ydych yn berchennog, yn rhentu, neu'n prydlesu eich eiddo.

# Sut i ddeall eich gwastraff ac ailgylchu'n well

Er mwyn deall y gwahanol fathau o wastraff rydych yn ei gynhyrchu, gwnewch archwiliad gwastraff trwy gerdded trwy'r gwahanol fannau yn eich adeilad, e.e., ystafelloedd preswylwyr, swyddfeydd, ceginau, mannau paratoi bwyd, storfeydd, ystafelloedd glanhau dillad a mannau cymunedol fel ystafelloedd bwyta a lolfeydd. Mae'n werth archwilio cynnwys biniau cyffredinol er mwyn deall pa wastraff sy'n cael ei greu, ac i dynnu sylw at unrhyw ymdrechion lleihau gwastraff neu ailgylchu sydd eisoes ar waith.

Gallai'r meysydd yr ydych yn fwyaf tebygol o gynhyrchu gwastraff gynnwys:

- Ffreuturau a cheginau – gwastraff bwyd (e.e. gwastraff paratoi) a deunyddiau pacio;
- Golchfa a storfeydd – gwastraff deunydd pacio,
- Ystafelloedd staff ac ystafelloedd egwyl – gwastraff papur a deunyddiau pacio;
- Swyddfeydd cyffredinol – papur;
- Ystafelloedd dydd, ystafelloedd gwely ac ystafelloedd ymolchi – papur, deunydd pacio;
- Mannau gweithgareddau a gweithdai – gwastraff papur a deunydd pacio a
- Tir allanol fel gerddi a mannau eistedd yn yr awyr agored – gwastraff bwyd a deunyddiau pacio.

Efallai y bydd cartrefi gofal hefyd yn cynhyrchu mathau o wastraff fel gwastraff clinigol neu fudr (fel padiau anymataliaeth), a gwastraff peryglus fel paent, olewau neu gemegau. Mae'r mathau hyn o wastraff yn galw am wasanaeth casglu gwastraff arbenigol ac nid ydynt yn disgyn o fewn cwmpas y gyfraith ailgylchu yn y gweithle.

# Atal gwastraff yn y lle cyntaf

Bydd lleihau neu atal faint o wastraff yr ydych yn ei gynhyrchu'n helpu i arbed arian a lleihau maint ac, efallai, nifer y biniau y bydd eu hangen arnoch. Po leiaf y gwastraff a gynhyrchwch, po leiaf fydd y costau o'i gasglu i chi.

Dyma rai awgrymiadau i'ch helpu i leihau eich gwastraff:

- Rhoddi stoc ormodol neu stoc heb ei werthu – gallwch roi gwarged bwyd i elusen neu gael oergell ar gyfer staff i ddal cynnyrch y gallant ei fwyta neu ei gludo adref am ddim. Mae Canllaw ar gael ar 'Sut mae'n rhaid i fusnesau bwyd gael gwared ar fwyd a chyn ddeunyddiau bwyd' (gov.uk)
- Defnyddio dulliau marchnata di-bapur drwy lwyfannau ar-lein.
- Prynu nwyddau y gellir eu hail-lenwi neu eu hailddefnyddio fel cwpanau, llestri a chyllyll a ffyrc.
- Bydd darparu ffynhonnau dŵr i staff a phreswylwyr eu defnyddio yn osgoi defnyddio poteli plastig untro.

Efallai y bydd rhai costau cychwynnol ynghlwm â gwneud y newidiadau hyn ond gallai cynyddu faint rydych yn ei ailgylchu leihau eich costau gwaredu gwastraff yn y tymor canolig i'r tymor hir.

# Sut i gydymffurfio â'r gyfraith ailgylchu newydd

Os ydych eisoes yn casglu ac ailgylchu'r holl ddeunyddiau fel sy'n angenrheidiol dan y gyfraith newydd, efallai na fydd rhaid ichi wneud unrhyw beth arall. Argymhellwn ichi ddarllen Casglu Deunyddiau Gwastraff ar Wahân ar gyfer Ailgylchu: Cod Ymarfer (llyw.cymru/ailgylchuynygweithle) i wneud yn hollol siŵr eich bod yn gwneud popeth y mae angen ichi ei wneud. Mae hyn yn cynnwys rhestr o'r holl fathau penodol o bethau y mae'n rhaid eu hailgylchu.

**Busnesau annibynnol:**

Os ydych yn gweithredu eich busnes yn annibynnol, eich cyfrifoldeb chi fydd rhoi gwasanaeth ar waith a sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r gyfraith newydd.

**Safleoedd masnachfraint neu sefydliadau mwy:**

Os ydych yn rhan o sefydliad mwy neu elusen gyda mwy nag un safle, yna efallai bod gwasanaethau rheoli gwastraff yn cael eu trefnu'n ganolog ar eich rhan.

# Sut i drefnu gwasanaeth ailgylchu newydd

Os bydd angen ichi drefnu gwasanaeth ailgylchu newydd, mae'n werth ystyried y canlynol:

- A oes angen ichi gael casgliadau ar adegau penodol o'r diwrnod neu'r wythnos er mwyn cyfrif am newidiadau yn symiau gwastraff a sicrhau diogelwch y safle? Cofiwch y gall cerbydau casglu gwastraff fod yn beryglus i breswylwyr sy'n agored i niwed os bydd angen iddynt deithio ar draws ardaloedd sydd â llawer o draffig cerddwyr;
- Beth yw swm neu fath y gwastraff rydych yn ei gynhyrchu'n rheolaidd?  A yw hynny'n newid yn ystod y flwyddyn?  Er enghraifft, cynnydd ar adegau pan fyddwch o bosibl yn lletya cleientiaid neu breswylwyr ychwanegol. Efallai bydd angen i'ch gwasanaeth casglu, yn cynnwys y nifer o finiau a pha mor aml y bydd angen eu gwagio, fod yn hyblyg;
- Efallai mai ychydig yn aml fydd yn gweithio'n well i chi. Mae'r rhan fwyaf o gasglwyr gwastraff yn cynnig cynwysyddion o wahanol feintiau, yn cynnwys sachau ar gyfer rhai mathau o wastraff. Unwaith y byddwch yn dechrau ailgylchu, efallai y byddwch yn gallu lleihau maint eich bin gwastraff cyffredinol;
- Os nad oes gennych lawer o le ar gyfer cynwysyddion y tu allan, a allech rannu biniau gyda busnesau eraill i helpu lleihau costau a lle? Cofiwch, ni ellir storio cynwysyddion gwastraff ar briffyrdd cyhoeddus rhwng casgliadau;
- Siaradwch gyda'ch casglwr gwastraff presennol am eich anghenion ailgylchu newydd. Bydd angen iddyn nhw fod yn ymwybodol o'r gyfraith newydd a sicrhau bod y gwasanaethau y maen nhw'n eu cynnig yn cydymffurfio a
- Gallech hefyd gael dyfynbrisiau gan amrywiaeth o gasglwyr er mwyn cael y pris gorau a'r gwasanaeth sy'n fwyaf addas i chi.

# Sut i drefnu gwasanaeth ailgylchu newydd

Os mai cartref dan reolaeth awdurdod lleol ydych chi, mae'n bosibl y bydd trefniadau'n cael eu gwneud cartrefi tebyg yn eich ardal awdurdod lleol. Mae'r gyfraith ailgylchu yn y gweithle yn berthnasol i holl eiddo awdurdodau lleol, felly mae'n bosibl y bydd caffael canolog yn digwydd i leihau amser ac ymdrech.

Gall sefydliadau yn y sector cyhoeddus ddefnyddio cytundebau contractau fframwaith a gaiff eu caffael gan sefydliadau prynu proffesiynol fel:

- GwerthwchiGymru (gwerthwchigymru.llyw.cymru) gaffael nwyddau a gwasanaethau, gan arbed amser ac ymdrech i chi, ynghyd ag arian o bosibl.
- Mae'r Eastern Shires Purchasing Organisation (ESPO) (www.espo.org) yn darparu fframwaith ar gyfer caffael gwasanaethau casglu gwastraff, ailgylchu sych a gwastraff bwyd drwy gyfrwng Fframwaith 379_21.
- Yorkshire Purchasing Organisation (YPO) yn darparu amrywiaeth o fframweithiau dan ei adran Rheoli Cyfleusterau (ypo.co.uk) ar gyfer caffael nwyddau a gwasanaethau fel leinin y gellir eu compostio, cynwysyddion gwastraff ac ailgylchu dan do ac awyr agored, biniau olwynion a gwasanaethau ailgylchu.

Yna dylech fonitro effeithiolrwydd eich system gwastraff newydd a gwneud newidiadau lle mae angen gwelliannau. Cyfrifoldeb perchennog y safle yw penderfynu pa mor aml y dylid adolygu'r system, o bosibl mewn ymgynghoriad â'ch darparwr gwasanaeth rheoli gwastraff.

# Gwastraff bwyd a hylendid

Yn anorfod, bydd Cartrefi Gofal sydd â ffreuturau neu geginau yn creu gwastraff bwyd mewn symiau mwy na'r sefydliadau hynny nad ydynt yn paratoi a choginio bwyd ar y safle. Mae canllawiau ar wastraff bwyd i'ch helpu i waredu eich gwastraff yn gywir er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith Dyletswydd i Ofalu bresennol (cyfoethnaturiol.cymru).

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (food.gov.uk/cy) hefyd yn darparu canllaw sy'n golygu bod angen ichi:

- Storio bwyd mewn cynwysyddion y gellir eu selio sydd yn:
  - Soled, a digon cryf i ddal gwastraff bwyd,
  - Mewn cyflwr da – h.y. heb ddifrod neu holltau a allai alluogi plâu i gyrraedd y gwastraff neu achosi gollyngiadau; ac
  - Yn hawdd eu glanhau a'u diheintio;
- Symud gwastraff bwyd a sbwriel arall o ardaloedd cyn gynted â phosibl a
- Bod â digon o gyfleusterau storio gwastraff i storio a gwaredu gwastraff bwyd a sbwriel arall i'w cadw'n lân.

Sicrhewch fod unrhyw newidiadau a wnewch yn cael eu cynnwys yn eich Systemau Rheoli Diogelwch Bwyd.

Os yw eich casglwr gwastraff bwyd yn caniatáu ichi ddefnyddio bagiau leinio compostadwy, sicrhewch fod eich bagiau leinio yn cydymffurfio â BS EN 13432. Mae'r safon hwn yn golygu bod yr holl wastraff bwyd a gaiff ei anfon i'w brosesu'n fasnachol yn gorfod bodloni'r safonau iawn.

O dan y gyfraith newydd, rhaid i wastraff bwyd gael ei wahanu oddi wrth wastraff arall a'i gasglu i'w ailgylchu ac i adennill ynni adnewyddadwy a maetholion gan ddefnyddio gwasanaeth casglu gwastraff bwyd. Ni ddylid ei waredu i lawr y draen i'r garthffos er mwyn osgoi gorlethu'r system garthffosiaeth, blocio carthffosydd a cholli adennill ynni a maetholion gwerthfawr. Bydd gwastraff bwyd a gesglir i'w ailgylchu yn cael ei anfon i gyfleusterau treulio anaerobig i greu ynni adnewyddadwy a chynhyrchu gweddillion treulio anaerobig a chynhyrchion gwrtaith.

# Gwastraff bwyd a hylendid

Mae'r diffiniad o wastraff bwyd y mae'n rhaid ei wahanu i'w gasglu a'i ailgylchu, ac na ddylid ei waredu i garthffos, wedi'i gynnwys ym mharagraff 4.13 o'r Cod Ymarfer (llyw.cymru/ailgylchu-yn-y-gweithle).

Nid yw diod wedi'i gynnwys yn y diffiniad ac felly gellir ei roi i lawr y garthffos. Yn ogystal, nid yw'r diffiniad o wastraff bwyd yn cynnwys gwastraff bwyd sy'n cael ei gymysgu â dŵr neu unrhyw hylif arall o ganlyniad i'r dŵr neu'r hylif gael ei ddefnyddio i lanhau unrhyw le neu offer a ddefnyddir i brosesu neu baratoi bwyd neu ddiod. Mae hyn yn golygu bod gwastraff bwyd hylifol, megis cawl, sy'n cael eu golchi i lawr y garthffos fel rhan o'r broses o lanhau bwyd dros ben o bowlenni, cwpanau neu sosbenni hefyd wedi'i eithrio.

Fodd bynnag, os ydych yn cynhyrchu symiau o wastraff bwyd hylifol yn rheolaidd i'w waredu y tu hwnt i'r eithriad yn y broses lanhau y soniwyd amdano uchod, yna bydd angen i chi wahanu hwn ar gyfer ei gasglu er mwyn ei ailgylchu. Dylech siarad â'ch casglwr gwastraff bwyd i weld a allant gynnwys eich gwastraff bwyd hylifol yn eu gwasanaeth casglu gwastraff bwyd rheolaidd. Os na, efallai y bydd gofyn i chi drefnu gwasanaeth casglu bwyd hylifol arbenigol.

Yn ogystal, os ydych yn cynhyrchu symiau mawr o wastraff bwyd yn rheolaidd, gan gynnwys cawl neu fwyd hylif arall, dylech adolygu'r pecyn cymorth mapio lleihau Gwastraff Bwyd neu'r adnodd gan y Guardians of Grub (wrap.org) i weld sut i leihau gwastraff bwyd yn unol â'ch cyfrifoldebau o dan yr hierarchaeth gwastraff bwyd (gweler adran 2 o'r Cod Ymarfer am ragor o wybodaeth).

Cyfeiriwch at ein canllaw ar gyfer y sector Lletygarwch a Gwasanaethau Bwyd (busnesoailgylchu.wrapcymru.org.uk) a fydd yn rhoi rhagor o wybodaeth am gasglu gwastraff bwyd i'w ailgylchu.

# Lleoliad biniau mewnol

Gofyniad allweddol y gyfraith yw bod gwastraff sy’n debyg i wastraff o’r cartref yn cael ei wahanu er mwyn i'ch casglwr gwastraff ei gasglu. Nid oes unrhyw ffordd benodedig o sut i gasglu'r deunyddiau penodedig cyn eu casglu. Mae’n arfer da darparu cynwysyddion ar wahân ar gyfer pob ffrwd gwastraff ailgylchadwy, ond nid yw hyn yn ofynnol. Mewn rhai amgylchiadau, ni fydd hyn yn ymarferol nac yn gyraeddadwy.

Mae pob cartref gofal yn wahanol, a bydd yn rhaid i bob safle ystyried yr ateb gorau neu’r cyfuniad gorau o atebion ar gyfer eu hamgylchiadau. Fodd bynnag, mae opsiynau posibl yn cynnwys:

- Darparu biniau ailgylchu cymunedol mewn lleoliadau lle mae llawer o bobl yn ymweld, megis coridorau, ger lifftiau, mewn ystafelloedd dydd ac ati i staff, preswylwyr ac ymwelwyr eu defnyddio (yn ogystal â neu yn lle biniau ym mhob ystafell unigol)
- Pan fo lle yn broblem, fel ystafelloedd preswylwyr unigol, mae yna rai opsiynau:
  - cynhwysydd sy’n arbed lle fel biniau mewn tŵr
  - ateb dau gynhwysydd – gallai hyn alw am wahanu pellach yn dibynnu ar yr amrywiaeth o wastraff ailgylchadwy sy’n cael ei gasglu (fel y byddech efallai’n ei wneud gyda’r gwastraff a roddir yn y bin yn eich ystafell wely neu ystafell ymolchi gartref)
- Pan fo pryderon ynghylch preswylwyr yn defnyddio biniau mewn modd anaddas, mae darparu cynwysyddion mewn lleoliadau sy’n hygyrch i staff yn unig yn dderbyniol (gyda gwastraff a gynhyrchir gan breswylwyr fel deunydd pacio yn cael ei gasglu a’i ddidoli trwy gydol y dydd yn lle hynny.)

# Lleoliad a storio biniau

Mae’n bwysig ichi ystyried ble a sut byddwch yn storio eich gwastraff ac ailgylchu cyn iddo gael ei gasglu.

Sicrhewch fod cynwysyddion a mannau storio gwastraff:

- Yn ddiogel a hygyrch i staff ac i’ch casglwr gwastraff;
- Dim mewn lleoliadau sy’n peri rhwystr, perygl tân neu’n rhwystro llwybrau dihangfa;
- Yn darparu digon o gapasiti i ymdopi â’r mathau a’r symiau o wastraff a deunyddiau ailgylchadwy’r ydych yn eu cynhyrchu a’u storio rhwng casgliadau;
- Dim wedi’u lleoli wrth ymyl ardaloedd paratoi neu storio bwyd am resymau diogelwch a hylendid;
- Yn daclus, yn lân, a heb lanast neu wastraff rhydd ac
- Yn cael eu diogelu gyda chaeadau sy’n cau’n sownd, ac nad ydynt yn caniatáu i wastraff neu ailgylchu ddianc.

Mae’n bwysig:

- Labelu eich biniau ailgylchu i osgoi halogiad. Gallwch ddefnyddio labeli oddi ar wefan y Busnes o Ailgylchu (busnesoailgylchu.wrapcymru.org.uk) ac
- Atal dŵr rhag halogi gwastraff wedi’i storio.

Bydd dilyn y canllaw a’r cyngor hwn hefyd yn helpu osgoi problemau rheoli plâu.

# Hygyrchedd

Mae Llywodraeth Cymru eisiau i bawb allu lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu eu gwastraff ni waeth ble maen nhw'n byw, eu hiechyd, eu symudedd a'u hamgylchiadau personol. (tuag-at-ddyfodol-diwastraff-ein-strategaeth-wastraff.pdf (llyw.cymru)

Lle bynnag y gallwch, dylech wneud addasiadau priodol i'ch system fel bod pobl yn gallu deall yr hyn y mae angen iddynt ei wneud. Mae canllaw hawdd ei ddeall i'r rheolau newydd yma: Casglu Deunyddiau Gwastraff ar Wahân i'w Ailgylchu (llyw.cymru)

Dylai defnyddio labeli a lliwiau clir a chyson drwyddi draw a sicrhau bod staff, ymwelwyr a phreswylwyr yn cael gwybodaeth briodol am y system ailgylchu newydd fod o gymorth. Mae labeli a phosteri ar gyfer biniau ailgylchu i osgoi halogiad ar gael o wefan y Busnes o Ailgylchu (busnesoailgylchu.wrapcymru.org.uk)

# Ymgysylltu a chyfathrebu â phreswylwyr

Gallech ehangu ymgysylltiad a negeseuon ar ailgylchu i weithwyr, preswylwyr, ac ymwelwyr trwy:

- Labelu biniau'n glir gan ddefnyddio'r eiconau Cymru yn Ailgylchu a gydnabyddir yn genedlaethol fel bod defnyddwyr yn gwybod beth y gellir ac na ellir ei ailgylchu. Mae llawer o awdurdodau lleol yn defnyddio'r un eiconau ac efallai y bydd eich preswylwyr ac ymwelwyr yn gyfarwydd â hwy o'u casgliadau ailgylchu o'r cartref. Gallai hyn arwain at well ymgysylltu gyda darpariaeth ailgylchu ar safle'r cartref gofal.
- Sicrhau bod yr holl wybodaeth a labeli biniau'n defnyddio lliwiau ac eiconograffeg gyson ar draws holl safle'r cartref gofal er mwyn osgoi dryswch.
- Ar gyfer sefydliadau mawr gallech ystyried darparu mapiau ar y safle i nodi mannau ailgylchu yn ogystal â'r hyn y gellir ei dderbyn i'w ailgylchu ym mhob lleoliad.
- Sicrhau bod preswylwyr a chleientiaid newydd yn cael negeseuon ailgylchu addas mewn fformat hygyrch addas.
- Cynnwys gwybodaeth am ailgylchu o fewn y canllawiau gwybodaeth a ddarperir.
- Rhoi posteri i fyny o amgylch y safle gyda negeseuon a gwybodaeth ailgylchu.

# Ymgysylltu â staff

Wrth sefydlu cynllun ailgylchu gallai fod o fudd ymgysylltu a chysylltu â:

- Rheolwyr / cydweithwyr sy'n gyfrifol am gaffael nwyddau a gwasanaethau;
- Sicrhau bod holl weithwyr presennol a newydd yn cael negeseuon clir ynghylch ailgylchu, a hyfforddiant, sy'n cael ei gynnal yn barhaus ynghyd â fel rhan o'u hyfforddiant sefydlu.
- Gofalwyr, gweithwyr neu bobl sy'n gyfrifol am wagio biniau mewnol i gynwysyddion allanol, neu sy'n cysylltu â chasglwyr gwastraff neu ailgylchu;
- Staff glanhau i sicrhau bod gwastraff yn cael ei sortio'n gywir a gofyn iddyn nhw roi gwybod i'r gofalwr neu'r tîm rheoli am faterion fel biniau'n gorlifo neu halogiad. Gallant hefyd ddweud a oes gennych chi'r capasiti gwastraff cywir neu os oes angen mwy arnoch;
- Staff arlwyo mewn ceginau ar y safle i leihau gwastraff bwyd drwy reoli dognau a chynhyrchu gormod o wastraff bwyd a gwastraff anochel;
- Eich darparwyr Rheoli Cyfleusterau (os oes rhai) i sicrhau bod gwasanaethau ailgylchu'n cael eu darparu;
- Mae staff tir neu stadau angen gwybod am newidiadau i gasgliadau, ynghyd â lleoliadau biniau y byddant yn eu defnyddio wrth gyflawni eu dyletswyddau, h.y. codi sbwriel neu wagio biniau sbwriel allanol;
- Gall cydlynwyr gweithgareddau gysylltu sesiynau gweithgaredd â'r gweithgareddau ailgylchu hynny y gall cleientiaid neu breswylwyr gymryd rhan ynddynt a
- Mae swyddogion cynaliadwyedd (sy'n gyffredin mewn sefydliadau mwy neu sefydliadau sydd â mwy nag un safle) fel arfer yn adrodd ac yn ymgysylltu ar faterion amgylcheddol a chynaliadwyedd megis rheoli gwastraff.

# Syniadau ar hyfforddi staff

- Gofynnwch am syniadau ar sut y gallai cynllun weithio, oherwydd efallai eu bod wedi sylwi ar gyfleoedd neu faterion nad ydych wedi'u hystyried;
- Darparwch gyfarwyddiadau clir ar yr hyn y dylent ei wneud gyda gwahanol ffrydiau gwastraff neu ddeunyddiau ailgylchadwy i'ch helpu i gwrdd â'ch rhwymedigaethau ailgylchu newydd;
- Darparwch hyfforddiant i weithwyr parhaol a gweithwyr dros dro. Defnyddiwch hyfforddiant sefydlu i sicrhau bod dechreuwyr newydd yn gallu ailgylchu o'r diwrnod cyntaf, gyda hyfforddiant rheolaidd a nodiadau atgoffa ar gyfer yr holl weithwyr;
- Rhannwch wybodaeth am ailgylchu trwy ddiweddariadau rheolaidd mewn cyfarfodydd tîm ac ar hysbysfyrddau staff fel bod gweithwyr yn clywed am y gwahaniaethau y mae eu gweithredoedd yn eu gwneud a
- Gofynnwch am adborth os nad yw systemau ailgylchu'n gweithio'n dda, sicrhewch fod gweithwyr yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt a bod materion yn cael eu nodi'n brydlon cyn iddynt achosi mwy o broblemau.

Gallwch ddefnyddio ein hadnoddau wrth ymgysylltu â'ch gweithwyr (busnesoailgylchu.wrapcymru.org.uk).

# Adnoddau a gwybodaeth ychwanegol

- Cyfraith Ailgylchu yn y Gweithle - The Waste Separation Requirements (Wales) Regulations 2023
- Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am reoleiddio'r gofynion gwahanu a'r gwaharddiadau ar anfon deunyddiau i dirlenwi. Maent wedi cynhyrchu gwybodaeth am eu dulliau o reoleiddio'r Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle (naturalresourceswales.gov.uk/about-us/news-and-blogs/blogs/workplace-recycling-nrw-approaches-to-regulating)
- Mae gwaharddiad ar Blastigion Untro yn cynnwys cyllyll a ffyrc plastig, ffyn troi diodydd, nwyddau polystyren a gwellt yfed. (llyw.cymru/deddf-diogelur-amgylchedd-cynhyrchion-plastig-untro-cymru)
- Mae deunydd pacio plastig yn y diwydiant lletygarwch a gwasanaethau bwyd yn cynnig nifer o heriau a chyfleoedd, mae gan yr UK Plastic Pact bedwar targed sy'n gweithio tuag at fyd sy'n rhoi gwerth ar blastig. Mae camau y gallwch eu cymryd i gyflawni'r targedau hyn. (wrap.org.uk)
- Mae'r Pecyn adnoddau map llwybr lleihau gwastraff bwyd yn cynnig camau i'ch helpu i leihau gwastraff bwyd. I weld beth mae eraill wedi'i wneud, ewch i Astudiaethau achos lletygarwch a gwasanaethau bwyd ar wefan WRAP (wrap.org.uk)
- Os ydych yn chwilio am syniadau ar gyfer beth i'w wneud gyda bwyd dros ben, gall y Surplus food hub helpu, sydd hefyd ar gael ar wefan WRAP (wrap.org.uk)

wrap Cymru
Y Busnes o Ailgylchu Cymru | The Business of Recycling Wales